



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Newidiadau arfaethedig i Ddeddfwriaeth Bwyd Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mai 2019
Cam gweithredu sy'n ofynnol: 28 Mehefin 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â newidiadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu'u gwneud i:

- Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014
- Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

Sut mae ymateb:**Ar-lein**

Mae modd gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru sef

beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Ysgrifennwch atom yn:

Is-adran Bwyd
Llywodraeth Cymru
Llandrindod
Spa Road East
Powys
LD1 5HH

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

This document is available in English

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

FoodEUExitConsultation@gov.wales
YmgynghoriadBwydYmadaelArUE@llyw.cymru

ebost: tim.mchugh@gov.wales

ffôn: 03000258281

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y Rheoliad)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol yr ydych yn ei ddarparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau pellach. Lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y comisiynir trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael ei ddal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw amdanoch a chael gweld y data hwnnw
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123
1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

MANYLION YR YMGYNGHORIAD

Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad yn manylu ar gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 a Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009.

Diben y newidiadau arfaethedig yw helpu busnesau i addasu i newidiadau posibl yn y gofynion labelu wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r newidiadau hyn yn y gofynion labelu yn ymwneud yn benodol â:

- chynnyrch sydd ag Enw Bwyd Gwarchoddedig (PFN) a Dangosydd Daearyddol (GI);
- cynnyrch gwin; a
- chynnyrch ffrwythau a llysiau cymysg sy'n tarddu o fwy nag un wlad.

Mae angen helpu busnesau y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt i reoli'r stoc o gynnyrch sydd ganddynt yn barod ac i ystyried cynnyrch sydd wedi'i roi ar y farchnad cyn inni adael yr UE.

Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu caniatáu cyfnod trosiannol, o'r dyddiad ymadael tan adeg resymol yn y dyfodol, ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion labelu newydd.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y newidiadau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod y fframweithiau deddfwriaethol yn llwyr gefnogi ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Cafodd y ddogfen ymgynghori hon ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru ac i Gymru yn unig y mae'n berthnasol.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Ceisio barn y rhai sydd ar hyn o bryd yn dal dyfarniad o dan Gynllun PFN neu GI yr UE; awdurdodau gorfodi; cynhyrchwyr garddwriaethol; grwpiau defnyddwyr; rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd yn ehangach ar y newidiadau sy'n cael eu rhoi gerbron gan Weinidogion Cymru.

I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o fwyaf o ddiddordeb?

Bydd y newidiadau arfaethedig yn arbennig o berthnasol i gynhyrchwyr bwyd a diod sydd ar hyn o bryd yn dal dyfarniad PFN neu GI gan yr UE, cynhyrchwyr gwin, cynhyrchwyr garddwriaethol penodol, swyddogion gorfodi cyfraith bwyd a grwpiau defnyddwyr.

Efallai y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb hefyd i gyrff anllywodraethol sydd â diddordeb mewn deddfwriaeth yn ymwneud â bwyd.

1. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill i sefydlu Cynllun PFN/GI newydd i'r DU, i fod yn weithredol ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae hyn yn digwydd am na fydd gan y DU hawl mwyach i ddefnyddio Cynllun PFN/GI yr UE fel Aelod Wladwriaeth, ar ôl inni adael. Pan sefydlir y Cynllun newydd, bydd y rhai sy'n dal dyfarniad PFN/GI yr UE ar hyn o bryd yn cael eu hamddiffyn yn awtomatig a bydd gofyn iddynt ddefnyddio logos newydd Cynllun y DU.

I helpu busnesau y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt i reoli'r stoc o labeli a logos yr UE arnynt sydd ganddynt yn barod, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu caniatáu cyfnod trosiannol o'r dyddiad ymadael tan adeg resymol yn y dyfodol ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion a'r logos newydd. I ganiatáu ar gyfer y cyfnod trosiannol arfaethedig hwn, bydd angen mân newidiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd.

Cefndir y Rheoliad

Mae darpariaeth yn y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) ynglŷn â gorfodi Rheoliad (UE) 1169/2011 ar ddarparu Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr.

Mae'r gofynion gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr yn pennu rheolau o ran gwybodaeth benodol y mae angen i fusnesau ei chyfleu i ddefnyddwyr i sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn am y cynnyrch bwyd neu ddiod y byddant yn ei ddewis.

Cefndir y Cynigion

Ar hyn o bryd mae'r gofynion gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr yn cynnwys darpariaeth sy'n dweud na ddylai labeli bwyd gamarwain defnyddwyr ynglŷn â nodweddion y bwyd yn arbennig o ran ei natur, beth yw, priodoleddau, cyfansoddiad, swm, pa mor hir y mae'n para, gwlad tarddiad neu stoc o ble, dull gweithgynhyrchu neu gynhyrchu.

Mae hyn yn golygu y gallai busnesau sy'n parhau i ddefnyddio labeli bwyd nad ydynt wedi cael eu newid i adlewyrchu'r rheolau o dan Gynllun PFN/GI newydd y DU dorri'r Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd, a gallai hynny fod yn drosedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mewnosod darpariaeth drosiannol yn y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd. Y bwriad polisi wrth wraidd y cynigion hyn yw na allai hysbysiadau gwella gael eu cyflwyno i fusnesau yn ystod y cyfnod trosiannol os yw eu labeli yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n weithredol yn union cyn i'r DU adael yr UE (h.y. y diwrnod ymadael).

Bwriedir hefyd cyflwyno gwelliant a fydd yn caniatáu i gynhyrchwyr gwin ddefnyddio'r cyflenwadau o labeli gwin sydd ganddynt yn barod heb gael eu rhwymo gan unrhyw ofynion labelu newydd yn sgil gadael yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall fod yna gynigion i wneud newidiadau tebyg i'r rheoliadau domestig cyfatebol sydd mewn grym yn rhanbarthau eraill y DU, ac mae o'r

farn felly ei bod yn hanfodol fod cynhyrchwyr yng Nghymru yn elwa o'r un mesur o gymorth deddfwriaethol.

Y Cynigion

Y bwriad yw bod y newidiadau arfaethedig yn caniatáu:

- dihysbyddu stoc bresennol a roddir ar y farchnad cyn inni adael yr UE;
- dihysbyddu stoc bresennol o win a roddir ar y farchnad ar ôl inni adael yr UE; a
- bod unrhyw gynnyrch PFN a GI arall a roddir ar y farchnad ar ôl inni adael yr UE yn elwa o'r ddarpariaeth hon am gyfnod rhesymol o amser, gan ddechrau o'r diwrnod ar ôl ein diwrnod ymadael.

2. Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

Cyflwyniad

Mae rheolau penodol yn rheoli marchnata a labelu cynnyrch ffrwythau a llysiau cymysg, lle mae'r cynnyrch yn tarddu o fwy nag un wlad, wedi'u pennu yn Erthygl 7 o Reoliad (CE) 543/2011. Diben y rheolau hyn yw gwneud labelu cynnyrch o'r fath yn syml ac ymarferol drwy osgoi enwi pob gwlad tarddiad yn unigol.

I baratoi ar gyfer y posibilrwydd o adael yr UE ar sail 'dim cytundeb', mae'r gofynion hyn wedi cael eu newid gan Lywodraeth y DU yn Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae'r newidiadau hyn yn dileu cyfeiriadau at yr UE ac yn gosod cyfeiriadau at y DU yn eu lle.

Er enghraifft, bydd labeli sydd ar hyn o bryd yn dweud 'cymysgedd o ffrwythau a llysiau nad ydynt o'r UE' yn cael eu newid i 'gymysgedd o ffrwythau a llysiau nad ydynt o'r DU'.

Y rheswm am hyn yw, os gadawn ni'r UE heb gytundeb, ni fydd yn berthnasol mwyach categoreiddio cymysgeddau o gynnyrch ar sail p'un a ydynt yn tarddu o'r UE neu beidio.

Cefndir y Rheoliad

Mae Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009 yn darparu ar gyfer gorfodi safonau marchnata yn y sector ffrwythau a llysiau ffres.

Mae hyn yn cynnwys gorfodi'r rheolau sy'n pennu pa wybodaeth y mae angen i fusnesau ei darparu ar labeli ac yn disgrifio'r pwerau a roddir i swyddogion gorfodi pan gaiff methiant i gadw at y rheolau ei ganfod.

Cefndir y Cynigion

O dan Reoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009, mae person yn cyflawni trosedd lle mae'r wybodaeth a ddarperir am gynnyrch garddwriaethol yn rhoi disgrifiad anghywir neu gamarweiniol.

Mae gan swyddogion gorfodi y grym i roi hysbysiad 'gwall labelu' ynghlwm wrth gynnyrch garddwriaethol sydd wedi'i labelu'n anghywir.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mewnosod darpariaeth drosiannol yn y Rheoliadau i roi digon o hyblygrwydd ac amser i gynhyrchwyr i addasu i'r rheolau newydd yn Erthygl 7 o Reoliad (CE) 543/2011, a fydd yn dod i rym pa bai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb.

Y bwriad yw cyfyngu'r ddarpariaeth hon i gynnyrch y mae'r rheolau newydd hyn yn effeithio arno lle mae'r cynnyrch yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol sydd mewn grym yn union cyn i'r DU adael yr UE (h.y. y diwrnod ymadael).

Y Cynigion

Bydd y newid arfaethedig yn atal troseddau rhag cael eu cyflawni o dan reoliad 4 a bydd yn atal camau gorfodi rhag cael eu rhoi ar waith yn unol â pharagraff 1 o reoliad 11 o Reoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009.

I sicrhau cysondeb â chynigion yn rhanbarthau eraill y DU, bwriedir i'r ddarpariaeth drosiannol hon gynnwys cynnyrch yr effeithir arno gan y newidiadau labelu hyn a roddir ar y farchnad ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020.

3. Effaith

Busnesau:

Rydym yn tybio bod y maes deddfwriaeth hwn yn berthnasol i bob sefydliad bwyd cofrestredig ac y bydd rhaid felly iddynt fuddsoddi er mwyn deall y ddeddfwriaeth newydd.

Rydym yn rhagweld costau ymglyfarwyddo bach iawn, unwaith-yn-unig, i fusnesau; rydym yn amcangyfrif y bydd yn cymryd llai na 30 munud i fusnesau i ddarllen a deall y newidiadau arfaethedig ac wedyn i ledaenu'r wybodaeth i staff allweddol o fewn eu cwmni.

Mae'n annhebygol y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith arall ar waith busnesau o ddydd i ddydd.

Awdurdodau Gorfodi:

Rydym yn amcangyfrif llai na 30 munud i bob swyddog gorfodi i ymglyfarwyddo â'r newidiadau.

PROSES YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI

Y Broses Ymgynghori

Mae ymgynghoriad chwe wythnos yn cael ei lansio i roi'r cyfle i bartïon â diddordeb i gyflwyno sylwadau ar y cynigion hyn.

Bydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus ac efallai y caiff crynodeb o'r ymatebion ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Grwpiau yr effeithir arnynt

Bydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) yn arbennig o berthnasol i gynhyrchwyr bwyd sydd ar hyn o bryd yn dal dyfarniad PFN neu GI gan yr UE; cynhyrchwyr gwin a swyddogion gorfodi cyfraith bwyd. Bydd y newidiadau arfaethedig o ddiddordeb hefyd i ddefnyddwyr a grwpiau defnyddwyr.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnal Asesiad Effaith llawn am fod y newid arfaethedig wedi'i gyfyngu i gyfnod penodol o amser, mae'n targedu buddiannau rhai busnesau bwyd a diod penodol, ac mae'n lleihau effaith benodol iawn sy'n deillio o'n hymadawiad o'r UE.

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich Cyfeiriad

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig mewn perthynas â'r Rheoliadau a enwir uchod?

Rhowch eich sylwadau yma:

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu y gellid newid neu ychwanegu unrhyw beth at y newidiadau arfaethedig i wella'r effeithiau cadarnhaol neu i leddfu unrhyw effeithiau negyddol?

Rhowch eich sylwadau yma:

Cwestiwn 3: A oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau hyn?

Rhowch eich sylwadau yma:

Cwestiwn 4: Byddem yn hoffi cael clywed eich barn ar unrhyw effaith y gallai'r newidiadau arfaethedig hyn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafrio na'r Saesneg.

Rhowch eich sylwadau yma:

Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dywedwch hynny yma:

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Rydym yn ddiolchgar ichi am gymryd amser i ddarllen yr ymgynghoriad ac ymateb iddo.

Cofiwch fod gofyn i ymatebion ddod i law erbyn 28 Mehefin 2019.

Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl hyn yn cael eu cynnwys wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, gofynnwn am eich enw chi ac enw'r sefydliad. Fodd bynnag, mae'r dewis gennych i aros yn ddiennw, os ydych yn dymuno.

Edrychwch ar yr adran ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol i gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff ei ddefnyddio.

Ar ran Llywodraeth Cymru, diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.